

COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

Y CABINET

DYDD MERCHER, 28 MEHEFIN 2023

Aelodau'r Cabinet:

Cynghorwyr:: S.K.Hunt (Cadeirydd), S.A.Knoyle, N.Jenkins, J.Hurley,
S.Harris, J.Hale, A.Llewelyn, W.F.Griffiths, S.Jones a/ac
C.Phillips

Swyddogion yn bresennol:

A.Jarrett, A.Thomas, N.Daniel, C.Griffiths, S.Brennan, H.Jones, C.Owen,
C.Furlow-Harris, S.Griffiths, R.Headon, S.Davies, A.Thomas, P.Chivers a/ac
T.Davies

Gwahoddedigion Craffu: Cynghorwyr P.Rogers a J. Henton

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Bod cofnodion y cyfarfodydd blaenorol, a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol, yn cael eu cytuno fel cofnod cywir:

9 Ebrill 2023 (Arbennig)

25 Ebrill 2023 (Arbennig)
10 Mai 2023 (Arbennig)
17 Mai 2023 a
24 Mai 2023 (Cyfarfod Blynyddol)

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/24**

Bod y Flaenraglen Waith yn cael ei nodi.

6. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

7. **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2022/2023**

Penderfyniad:

Bod Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022-2023 sydd ynghlwm wrth Atodiad 1 i'r adroddiad a gylchredwyd, yn cael ei gymeradwyo.

Rheswm dros y penderfyniad:

Sicrhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn bodloni gofynion Rheoliad 5(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas ag adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd systemau rheoli mewnol y cyngor a pharatoi a chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r ddyletswydd sydd wedi'i chynnwys o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i barhau i adolygu ei berfformiad.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

8. **STRATEGAETH HYRWYDDO'R GYMRAEG 2023-2028**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Cytunir ar Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2023-2028

2. Caiff y Strategaeth ei chymeradwyo i fynd gerbron y cyngor i'w mabwysiadu'n ffurfiol.

Rheswm dros y penderfyniad:

Sicrhau bod y cyngor yn bodloni'r gofynion a gynhwysir yn safon 145 Safonau'r Gymraeg (hyrwyddo).

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

Ymgynghoriad:

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol.

9. **PREMIYMAU TRETH Y CYNGOR – CARTREFI GWAG TYMOR HIR AC AIL GARTREFI**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Cynhelir ymarfer ymgynghori ar y defnydd arfaethedig o bwerau disgresiwn y cyngor, mewn perthynas â chartrefi gwag tymor hir ac ail gartrefi.
2. Caiff canlyniadau'r ymarfer ymgynghori eu dwyn yn ôl i gyfarfod Cabinet yn y dyfodol, er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor Llawn.

Rheswm dros y penderfyniad:

Penderfynu a ddylid cymhwyso premïymau Treth y Cyngor ar eiddo gwag tymor hir ac ail gartrefi.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

Ymgynghoriad:

Mae gofyniad o dan y Cyfansoddiad i ymgynghori'n allanol ar yr eitem hon, y nodir manylion hyn yn yr adroddiad a gylchredwyd.

10. **STRATEGAETH DIGIDOL, DATA A THECHNOLEG**

Penderfyniad:

Bod y Strategaeth Digidol, Data a Thechnoleg yn cael ei chymeradwyo i'w rhoi gerbron y cyngor i'w mabwysiadu ar 12 Gorffennaf 2023.

Rheswm dros y penderfyniad:

Sicrhau bod Strategaeth Digidol, Data a Thechnoleg y cyngor yn parhau i fod yn gyfredol ac yn addas i'r diben.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

Ymgynghoriad:

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun adolygiad cymheiriaid gyda sefydliadau eraill.

11. **TREFNIADAU YMGEISIO AR GYFER GRANTIAU'R TRYDYDD SECTOR - 2024/2025**

Penderfyniad:

Bod y canlynol yn cael eu cymeradwyo fel y meini prawf ar gyfer gwahodd ceisiadau am arian, a lywodraethir gan Gynllun Grantiau'r Trydydd Sector 2024-25:

- Cyfrannu at gyflawni polisiâu a blaenoriaethau allweddol sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Corfforaethol 2023-2027 y cyngor.
- Lleihau'r galw ar wasanaethau'r cyngor. Er enghraifft, hyrwyddo a chynorthwyo dinasyddion i ddefnyddio gwasanaethau digidol y cyngor; hyrwyddo cyfranogiad mewn gwasanaethau dewisol i gynyddu nifer sy'n eu defnyddio; neu drwy gynnig gweithgareddau ymyrryd yn gynnar ac atal sy'n cynnal neu'n gwella lles pobl.

- Manteisio ar adnoddau ychwanegol. Croesewir yn arbennig geisiadau sy'n dangos sut caiff arian y cyngor ei ddefnyddio i ddenu adnoddau ychwanegol i gefnogi polisïau a blaenoriaethau'r cyngor.
- Cynaliadwyedd ariannol. Bydd y cyngor yn dymuno cael ei fodloni nad yw'r ymgeisydd yn ddibynnol ar arian parhaus gan y cyngor i gyflawni cynaliadwyedd ariannol.
- Yn ogystal â'r uchod, croesewir yn arbennig geisiadau sy'n canolbwyntio ar weithgareddau a fydd yn helpu grwpiau a chymdeithasau cymunedol y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio arnynt, y rheini sy'n dal i deimlo effaith y pandemig a cheisiadau sy'n ceisio datblygu gallu/cydweithio cymunedol ymhellach.

Rheswm dros y penderfyniad:

Sicrhau bod penderfyniadau cyllido a wneir ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 mewn perthynas â grantiau a ddyfernir o dan Gynllun Grantiau'r Trydydd Sector, yn cyd-fynd â blaenoriaethau cyffredinol y cyngor.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

12. MONITRO PERFFORMIAD CHWARTER 4

Penderfyniad:

Bod yr adroddiad monitro'n cael ei nodi.

13. DATGANIAD SEFYLLFA ALLDRO A CHRONFEYDD REFENIW 2022-23

Cofnodwyd bod y Prif Swyddog Cyllid wedi diolch i'r holl Gyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth a rheolwyr atebol, sy'n rheoli cyllidebau'n ddyddiol.

Penderfyniad:

Bod yr adroddiad monitro'n cael ei nodi.

14. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR SAFONAU'R GYMRAEG 2022-2023

Penderfyniad:

Bod yr adroddiad monitro yn cael ei nodi.

15. **EITEMAU BRYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

16. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

PENDERFYNWYD: Yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwaherddir y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

17. **CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DU (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Bydd y prosiectau a gyflwynwyd (fel y nodwyd yn yr adroddiad preifat a gylchredwyd), o dan Alwad Agored Sgiliau a Lluosi Castell-nedd Port Talbot (rownd 1), yn amodol ar asesiadau Rheoli Cymhorthdal, yn cael eu cymeradwyo
2. Bydd ail rownd Sgiliau, galwad am geisiadau wedi'i thargedu, yn cael ei lansio sy'n nodi'r meysydd hynny o'r elfen Sgiliau sy'n ofynnol i ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd yng Nghastell-nedd Port Talbot.
3. Bydd y dyraniad Sgiliau nas dyrannwyd yn cael ei gynnwys yn yr alwad am geisiadau wedi'i thargedu ar gyfer rownd 2 yr elfen Sgiliau, a dyraniad Lluosi blwyddyn 1 yn cael ei ddyrannu i gyllideb flaenoriaeth Sgiliau craidd blwyddyn 2 (yn amodol ar gadarnhad gan Lywodraeth y DU).
4. Rhoddir ystyriaeth bellach i'r camau nesaf mewn perthynas â Lluosi; bydd yr Arweinydd Sgiliau Strategol yn paratoi papur opsiynau i'w ystyried; a rhoddir awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid, yr Arweinydd a'r Aelod (au) Cabinet

perthnasol i gytuno i lansio galwad agored am brosiectau dan y flaenoriaeth Luosi.

5. Caiff proses cymeradwyo grantiau Castell-nedd Port Talbot ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ei chyflwyno, a fydd yn cynnwys lefelau awdurdod dirprwyedig, gydag adroddiadau rheolaidd yn cael eu rhoi i'r Cabinet.

Rheswm dros y penderfyniad:

Galluogi Cyngor Castell-nedd Port Talbot i roi Cynllun Gweithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU ar waith a hysbysu ymgeiswyr Sgiliau a Lluosi o benderfyniad cyllido'r alwad agored.

Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

18. **HEN GANOLFAN HAMDDEN CASTELL-NEDD YN FFORDD DYFED, CASTELL-NEDD (YN EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

Penderfyniad:

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i gam cyntaf yr Asesiad Effaith Integredig:

1. Cytunir ar ddymchwel a chlirio'r safle'r hen ganolfan hamdden yn Ffordd Dyfed, Castell-nedd, a dyrannu'r swm a bennwyd yn yr adroddiad preifat a gylchredwyd i ymgymryd â'r gwaith.
2. Rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio ymrwmo i gontract gyda'r cynigiwr llwyddiannus, ar gyfer y gwaith a grybwyllir uchod, fel y gall gwaith safle ddechrau cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosib, i sicrhau y gellir ei gwblhau yn ystod y tymor criced caeedig.

Rheswm dros y penderfyniad:

Caniatáu ar gyfer dymchwel a chlirio'r safle'n ddiogel, a rhyddhau'r cyngor o'i rwymedigaethau lechyd a Diogelwch ar gyfer rheoli eiddo gwag risg uchel, a lleihau ei rwymedigaeth i dalu ardrethi annomestig.

Rheswm dros y penderfyniad:

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

Ymgynghoriad:

Ymgynghorwyd ag aelodau'r ward ar y cynnig.

CADEIRYDD